# PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthin, Dydd Iau, 2 Chwefror 2017 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Cynghorwyr Brian Blakeley, Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Martyn Holland, Anton Sampson, Cefyn Williams a Cheryl Williams

Mynychodd yr Aelodau Cyfetholedig Kathy Jones a Gareth Williams ar gyfer eitem 6 ar y rhaglen

**Arsylwyr** – Cynghorwyr Meirick Davies, Stuart Davies ac Arwel Roberts

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (AS), Pennaeth Addysg (KE), Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau Addysg (IL), Cydlynydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Bill Cowie, Rhys Hughes, Bob Murray a David Simmons

Aelodau Cabinet – Y Cynghorwyr Bobby Feeley, David Smith ac Eryl Williams

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Brian Blakeley gysylltiad personol ag eitem 5 ar y rhaglen – Comisiynydd Heddlu a Throsedd gan mai ef oedd cynrychiolydd y Cyngor ar Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Datganodd y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Anton Sampson, Cheryl Williams a Cefyn Williams gysylltiad personol ag eitem 6 ar y rhaglen - Polisi Drafft Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Sir Ddinbych, oherwydd maent yn llywodraethwyr ysgol.

Fe wnaeth y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts hefyd ddatgan cysylltiad personol ag eitem 9 ar y rhaglen – Rhaglen Waith Archwilio, oherwydd cyfeiriwyd at y Banciau Nat West lleol yn cau, ac roedd yn rhedeg Swyddfa Bost Rhuthun, a oedd yn darparu gwasanaethau bancio.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2016.

**Materion yn codi -**

Tudalen 8, Cofnodion Eitem 4 (Effaith y cynnydd mewn taliadau parcio ceir ar draws y sir) – Roedd Cyngor Tref yr Wyddgrug wedi rhoi gwybod nad ydynt yn rhoi cymhorthdal ar gyfer taliadau parcio ceir yn yr Wyddgrug. Roedd swm bach o elw o'r incwm parcio gwir wedi dod i law – nid mewn "arian sychion" ond roedd y Cyngor Tref yn gallu manylu ynghylch pa brosiectau y dylid gwario'r arian arnynt. Yna fe gynhaliwyd y gwaith y cytunwyd arno mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint, ac roedd pob prosiect yn ymwneud ag isadeiledd. Roedd Cyngor Tref yr Wyddgrug hefyd wedi rhoi gwybod bod Cyngor Tref Bwcle wedi cytuno talu swm penodol i Gyngor Sir y Fflint dros gyfnod y Nadolig, fel y byddai ymwelwyr yn elwa o barcio am ddim am y pythefnos yn arwain at y Nadolig.

Tudalen 10, Eitem 6 Rheoli Dŵr a Lliniaru Llifogydd - cyfeiriodd y Cynghorydd Martyn Holland at (1) drafodaethau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru yn y cyfarfod diwethaf, a roddodd wybod am y gwaith i liniaru'r risg i fywydau ac eiddo, oherwydd llifogydd o'r prif afonydd, a (2) Strategaeth Cynnal a Chadw Pontydd y Cyngor a ystyriwyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor Archwilio Perfformiad. Roedd y Cynghorydd Holland yn gobeithio y byddai'r pontydd yn cael eu cynnwys yn y categoreiddio eiddo a gyfeiriwyd ato gan Gyfoeth Naturiol Cymru at ddibenion y gwaith lliniaru, o ystyried y niwed posibl i bontydd o ganlyniad i goed wedi disgyn ac ati, a goblygiadau cost atgyweirio/cynnal a chadw dilynol. Nodwyd y byddai rheolaeth dŵr a llifogydd yn Sir Ddinbych yn cael ei drafod yn Sesiwn Briffio'r Cyngor ym mis Mehefin, a chytunwyd y byddai'r mater yn cael ei godi bryd hynny.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2016 fel cofnod cywir.*

## 5 COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD

Croesawodd y Cadeirydd Mr Arfon Jones, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i'r cyfarfod ar ôl cael gwahoddiad gan y Pwyllgor, i rannu ei weledigaeth a'i flaenoriaethau ar gyfer y rhanbarth. Nododd yr Aelodau'r gwahaniaeth rhwng rôl strategol y Comisiynydd a rôl weithredol y Prif Gwnstabl wrth blismona, a chytunwyd i wahodd y Prif Gwnstabl i gyfarfod yn y dyfodol i drafod ei weledigaeth a'i flaenoriaethau.

Cyn ei anerchiad ffurfiol, rhoddodd y Comisiynydd wybod bod Panel yr Heddlu a Throsedd wedi cymeradwyo ei gyllideb ddrafft 2017/18 yn gynharach yr wythnos honno, a fyddai'n arwain at 17 o swyddogion heddlu ychwanegol, a 6 aelod staff arall yn cael eu recriwtio. O'r 17 swyddog heddlu ychwanegol i'w recriwtio, byddai 10 yn cael eu defnyddio 'ar y bît' ar draws gogledd Cymru i ddelio â throseddau lefel isel, fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, tra byddai'r 7 swyddog sy'n weddill, a 6 aelod arall o staff yn cael eu cyflogi mewn rolau arbenigol, i archwilio cam-fanteisio ar blant a seiber-fwlio yn bennaf. I ariannu'r gyllideb hon, roedd y Pwyllgor wedi cytuno pennu praesept yr Heddlu ar 3.79%, a oedd yn cyfateb i gynnydd o £9 y flwyddyn, neu 17c y diwrnod, ar eiddo Band D ar draws gogledd Cymru.

Anerchodd Mr Jones y Pwyllgor drwy amlinellu ei rôl a'i gyfrifoldebau fel y Comisiynydd etholedig, cynrychiolydd y cyhoedd ar gyfer ymgysylltu â Heddlu Gogledd Cymru. Roedd y dyletswyddau hyn yn cynnwys -

- gosod y gyllideb a'r praesept ar gyfer Gwasanaeth yr Heddlu
- dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflawni ei brif ddyletswydd, o ddarparu gwasanaeth plismona effeithiol ac effeithlon i ogledd Cymru, gan ddarparu gwerth am arian a lleihau troseddau
- dyrannu refeniw i grwpiau i atal trosedd ac anhrefn ar draws gogledd Cymru
- llunio Cynllun yr Heddlu a Throsedd, gan nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru.

Roedd y Comisiynydd ar hyn o bryd yn y broses o ymgynghori ar ei Gynllun Heddlu a Throsedd, ei gynllun cyntaf ers iddo gael ei ethol ym Mai 2016. Fel rhan o'i ymgynghoriad ar y Cynllun, roedd holiadur ar-lein wedi bod ar gael i breswylwyr ei lenwi, a chyfres o gyfarfodydd cyhoeddus wedi'u cynnal ar draws gogledd Cymru. Rhoddodd wybod i aelodau nad oedd wedi newid Cynllun ei ragflaenydd wedi iddo gael ei ethol, gan ei fod yn cytuno â'r mwyafrif o gamau gweithredu ynddo. Fodd bynnag, byddai ei Gynllun yn adlewyrchu'r newidiadau a'r bygythiadau sy'n wynebu gogledd Cymru, yn ogystal â blaenoriaethau preswylwyr, asiantaethau statudol, y sector gwirfoddol a'r gymuned fusnes ar draws y rhanbarth, lle bo modd.

Byddai Cynllun y Comisiynydd yn canolbwyntio ar freguster yn hytrach na cheisio delio â phawb a phopeth. O ganlyniad, byddai'n cynnwys cynlluniau i fynd i'r afael â cham-drin domestig, cam-drin plant, caethwasiaeth fodern a masnachu pobl. Er bod egwyddorion sylfaenol plismona wedi aros yr un fath â phan yr oedd yn swyddog gyda'r heddlu, roedd agweddau eraill ar blismona wedi newid, yn ogystal â'r mathau o droseddau roeddent yn delio â nhw o ddydd i ddydd. Roedd troseddau ffiaidd fel cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern yn llawer mwy cyffredin nawr, fel yr oedd digwyddiadau seiberdroseddau. Roedd ystadegau bellach yn dangos fod yna fwy o droseddau'n cael eu cyflawni ar-lein y dyddiau hyn, o'i gymharu ag ar y strydoedd. O ganlyniad, roedd angen mwy o adnoddau'r Heddlu i ddelio â throseddau a oedd i bob pwrpas yn 'guddiedig', neu nid yn weladwy i fwyafrif y boblogaeth. Er gallai'r drosedd 'guddiedig' hon ymddangos yn fater hawdd i'w ymchwilio i ddechrau, roedd cyflymder a phŵer seiberdroseddau a chyfryngau cymdeithasol yn golygu ei fod yn faes cymhleth a allai ehangu dros y byd i gyd a chynnwys dwsinau, os nad cannoedd, o gyflawnwyr trosedd, h.y. rhannu delweddau anweddus ac ati. I bwysleisio maint a chymhlethdodau'r mathau hyn o achosion, cyfeiriodd at achosion proffil uchel penodol a oedd wedi'u cynnwys yn y cyfryngau dros y misoedd diweddar. Yn aml iawn, nid oedd dioddefwyr troseddau o'r fath, oherwydd eu breguster, yn cydnabod eu hunain fel dioddefwyr, felly roedd angen amser ac ymrwymiad staff arbenigol o'r Heddlu ac asiantaethau eraill i gasglu'r dystiolaeth o'r troseddau a gyflawnwyd.

Roedd caethwasiaeth fodern yn drosedd 'newydd' arall a oedd yn dod yn gyffredin yng ngogledd Cymru. Roedd porthladd Caergybi'n gwneud gogledd Cymru'n ardal allweddol yn y DU ar gyfer masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern. Roedd y math penodol hwn o drosedd angen mwy o fuddsoddiad ac yn esiampl o nifer o feysydd

lle nad oedd yr Heddlu’n gallu delio â’r broblem ar eu pen eu hun. Roedd materion yn codi o achosion yn cynnwys caethwasiaeth fodern, cam-drin domestig, cam-fanteisio’n rhywiol ar blant, a throseddau difrifol eraill yn aml â goblygiadau a gofynion adnoddau llawer ehangach na phlismona’n unig. Er mwyn mynd i’r afael â’r troseddau hyn yn llwyddiannus, roedd gwaith partneriaeth effeithiol rhwng yr holl gyrff ac asiantaethau cyhoeddus yn hanfodol.

Roedd mwy na deuddeg mis wedi mynd heibio ers llunio cynllun amlasiantaeth, a oedd yn cytuno ar ddelio â’r broblem gynyddol o gam-fanteisio’n rhywiol. Fodd bynnag, roedd y diffyg cynnydd a wnaed ers ei gymeradwyo wedi bod yn siomedig. Roedd y Comisiynydd yn meddwl fod hyn oherwydd diffyg ymrwymiad gan bartneriaid. Gofynnod i'r aelodau etholedig gwestiynu rôl awdurdodau lleol a cheisio sicrwydd fod popeth posibl yn cael ei wneud i ddiogelu plant ac aelodau mwyaf diamddiffyn cymdeithas. Prosiect arall roedd yn awyddus i fwrw ymlaen ag ef oedd un i gefnogi plant a oedd â rhieni yn y carchar. Er bod pob un o’r chwe awdurdod lleol a’r Bwrdd Iechyd wedi cyfranogi i sefydlu'r prosiect, mae'n ymddangos nad oes cynnydd pellach wedi bod.

Pwysleisiodd y Comisiynydd fod plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth arall ganddo. Yn ei farn ef, roedd y system cyfiawnder ieuenctid wedi bod yn aneffeithiol am flynyddoedd, ac roedd angen ymyrryd yn gynt i atal plant a phobl ifanc rhag canfod eu ffordd i'r system cyfiawnder troseddol yn y lle cyntaf. Dywedodd fod y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throsedd yng Nghymru'n galw ar bwerau mewn perthynas â datganoli cyfiawnder ieuenctid fel rhan o Fesur Cymru, am iddynt deimlo y gallai hyn wella'r sefyllfa. Yn ei farn ef, roedd manteision system cyfiawnder adferol yn gwrthbwyso'r manteision o fynd â phobl ifanc i’r llys, yn sylweddol.

Mewn perthynas â’i gyfrifoldeb statudol am ddyfarnu grantiau i atal trosedd ac anhrefn, dywedodd fod ei swyddfa ar hyn o bryd yn rhoi arian i bartneriaethau diogelwch cymunedol ar draws gogledd Cymru. Roedd hwn yn drefniant roedd wedi’i etifeddu, ond nid yn ei gefnogi. Byddai’n well ganddo weld model lle’r oedd y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel, a oedd ar hyn o bryd yn gweithredu heb arian, yn cael arian i gomisiynu gwasanaethau drwy gydol y flwyddyn er mwyn delio â meysydd o bryder. Roedd yn barod i fuddsoddi’r grant i atal trosedd ac anhrefn yn y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel, i’r Bwrdd gomisiynu gwasanaethau atal drwy gydol y flwyddyn, a gofyn i bartneriaid ddarparu arian cyfatebol i ariannu ei gyfraniad. Gofynnodd y Comisiynydd i’r Pwyllgor gefnogi ei gynnig, fel y gallai pob partner, gyda’i gilydd, ddiogelu’r ddarpariaeth o wasanaethau rheng flaen, lle’r oedd y galw mwyaf amdanynt.

Wrth ymateb i sylwadau a chwestiynau’r Pwyllgor, fe wnaeth y Comisiynydd -

- gadarnhau ei fod yn cyfrannu £17k i bob un o chwe awdurdod lleol gogledd Cymru tuag at eu gwasanaethau TCC. Roedd yn fodlon siarad gyda swyddogion y cyngor ynghylch eu cynlluniau arfaethedig ar gyfer dychwelyd i wasanaeth monitro 24 awr, i archwilio cefnogaeth bosibl. Fodd bynnag ni allai ymrwymo i ddarparu adnoddau ariannol tuag at gynigion sy’n fwy na’i gyfraniad ef i awdurdodau lleol eraill
- cytunodd fod defnyddio gwirfoddolwyr i fonitro lluniau TCC hefyd yn opsiwn a oedd yn haeddu rhagor o archwilio

- roedd yn cydnabod bod pryderon ymhlith y cyhoedd o ran diffyg presenoldeb Heddlu gweladwy ar y strydoedd ac mewn cymunedau. Oherwydd effaith toriadau llym, cynnydd mewn problemau iechyd meddwl, cydweithio gydag asiantaethau eraill, e.e. y Gwasanaeth Ambiwlans a chynnydd mewn cyfraddau trosedd 'cuddiedig', h.y. seiberdroseddau, roedd swyddogion yr heddlu bellach yn treulio 25% o'u hamser yn unig ar gynnal dyletswyddau heddlu 'traddodiadol'
- cadarnhaodd fod nifer fawr o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Chwnstabliaid Arbennig wedi ymuno â Gwasanaeth yr Heddlu fel rhan o'u dilyniant gyrfa
- amlinellodd nifer y rolau staff, a'u hamrywiaeth, sy'n cael eu cyflogi gan dîm y Comisiynydd. Roedd costau swyddfa'r Comisiynydd tua £800k y flwyddyn, roedd hyn i'w gymharu â chostau blynyddol hen Awdurdod yr Heddlu o tua £750k. Fodd bynnag, roedd cyfrifoldebau'r Comisiynydd yn ehangach na'r rhai a oedd gan Awdurdod yr Heddlu, gan ei fod yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau, rhai mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus eraill ac ati, a oedd yn werth £4 miliwn i £5 miliwn
- manylodd ar y cymhlethdodau wrth ymchwilio i seiberdroseddau, rôl asiantaethau fel yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, asiantaethau trosedd rhyngwladol, h.y. yr FBI, y broses o ran penderfynu pwy fyddai'n arwain ymchwiliadau cenedlaethol a rhyngwladol a phwy fyddai'n cynnal gwaith gwyliadwriaeth ar y llawr, yn cynnwys pwy fyddai'n gyfrifol am dalu costau ymchwiliadau o'r fath. Roedd y Swyddfa Gartref yn awyddus i heddluoedd gydweithio i fynd i'r afael â seiberdroseddau a throseddau digidol, ac wedi dyfarnu Cyllid Trawsffurfio i brosiect wella dulliau o rannu data troseddau a delweddau troseddau rhwng heddluoedd
- cadarnhaodd fod troseddau fel ymchwiliadau llofruddiaeth yn defnyddio llawer o adnoddau ac yn ddrud i'w cynnal
- rhoddodd wybod fod y Tîm Troseddau Gwledig, a sefydlwyd gan ei ragflaenydd, bellach wedi'i hen sefydlu. Roedd wedi cynyddu mewn maint a chapasiti a bellach yn cynnwys Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Fodd bynnag, gellid lleihau troseddau gwledig ymhellach os byddai mwy o ffermwyr yn buddsoddi mewn offer neu dechnoleg diogelwch fel camerâu ac ati, gan fod lluniau o offer o'r fath yn gallu cael eu defnyddio gan yr Heddlu i ddal ac erlyn y sawl sy'n cyflawni'r drosedd
- nododd y byddai effaith ar y rhanbarth, yn enwedig ardal Wrecsam, o ganlyniad i Garchar EM Berwyn. Byddai effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd cyflogaeth ar yr ardal a byddai goblygiadau hefyd ar yr isadeiledd lleol fel ysgolion, sefydliadau gwasanaeth iechyd ac ati. Nid oedd effeithiau posibl ar ofynion plismona lleol neu gyfraddau troseddau'n hysbys eto
- cadarnhaodd fod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Chwnstabliaid Arbennig gyda phwerau gorfodi o ran symud cerbydau a oedd yn achosi rhwystr. Er mai gwirfoddolwyr oedd y Cwnstabliaid Arbennig, roedd ganddynt fwy o bwerau gorfodi na Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, mewn nifer o feysydd trosedd ac anhrefn
- cynghorodd nad oedd wedi'i argyhoeddi y dylid gofyn i bob swyddog yr heddlu gael ei addysgu hyd at lefel gradd. I blismona fod yn effeithiol, dylai swyddogion fod ag amrywiaeth o sgiliau addysgol a rhyng-bersonol
- rhoddodd wybod am ei safbwynt bod cyffuriau at ddibenion hamdden yn peri mwy o fygythiad os cânt eu gorfodi i fod yn 'guddiedig'. Teimlai pe baent yn

cael eu rheoleiddio, yn debyg i alcohol, y byddai modd eu rheoli'n well. Mewn rhai gwledydd roedd defnyddio cyffuriau'n cael ei ddosbarthu fel mater iechyd cyhoeddus, nid mater troseddol. Yn y gwledydd hyn, nid oedd defnyddwyr cyffuriau'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, yn hytrach roeddent yn cael cynnig triniaeth. Roedd delwyr cyffuriau ar y llaw arall yn parhau i fod yn destun i'r system cyfiawnder troseddol yn y gwledydd hynny. Oherwydd natur ddadleuol y dull hwn, roedd gwleidyddion yn y DU yn anfodlon iawn trafod y mater hyd yn oed

- cadarnhaodd i'r Prif Weithredwr y byddai'n gwerthfawrogi cyfarfod gydag ef, gyda'r bwriad o symud ymlaen gyda'r cynllun rhyngasiantaethol, i ddelio â'r problemau cynyddol o ran cam-fanteisio ar blant
- rhoddodd wybod i aelodau fod rhywfaint o'r cyllid grant a ddyrannwyd yn ei flwyddyn gyntaf wedi'i ddarpar i'r grwpiau a gefnogodd waith gyda dioddefwyr troseddau, gan ei fod yn ymwybodol nad oedd trawma dioddefwyr yn dod i ben unwaith roedd yr achos llys wedi dod i ben. Byddai rhai dioddefwyr angen cefnogaeth am gyfnod sylweddol o amser. Roedd hefyd yn ymwybodol y byddai ymchwiliadau proffil uchel cyfredol, fel Ymchwiliad Annibynnol yr Athro Alexis Jay ac Ymchwiliad Offside o Gam-drin Plant mewn Clybiau Pêl-droed, yn rhoi mwy o bwysau ar grwpiau cefnogaeth dioddefwyr ac yn gofyn am adnoddau ariannol ychwanegol
- cadarnhaodd y byddai'n trafod gyda'r Awdurdod Tân ac Achub yn y dyfodol agos am ba mor ddichonadwy yw defnyddio Staff Gwasanaeth Tân ac Achub, sy'n cynnal Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref, i roi gwybod i'r Heddlu os ydynt yn amau fod yna gam-drin domestig mewn unrhyw gartrefi maent yn mynd iddynt. Roedd o'r farn y gallai'r dull partneriaeth arfaethedig hwn helpu i fynd i'r afael â cham-drin domestig yn yr ardal.

Cyfeiriwyd at y broblem gyda rhif nad yw'n argyfwng yr heddlu - 101, gan fod cysylltiad rhai galwyr yn cael ei dorri hyd yn oed cyn i'w galwad gael ei hateb. Ymddengys yn yr achosion hyn fod y cysylltiad yn cael ei dorri gan ddarparwr ffôn yr un oedd yn galw. Fodd bynnag, pwysleisiodd yr aelodau'r pwysigrwydd o'r Heddlu'n cael system yn ei lle i gydnabod yr alwad o leiaf, a rhoi gwybod y gall yr alwad ddod i ben os nad yw'n cael ei hateb o fewn cyfnod penodol o amser, neu i'r galwr adael neges i'r gwasanaeth eu galw'n ôl.

Ar ddiwedd y drafodaeth diolchodd y Cadeirydd i'r Comisiynydd am fynychu ac ateb cwestiynau'r Aelodau, ac felly -

***PENDERFYNWYD*** *ysgrifennu at y Prif Gwnstabl i geisio eglurder ar y pwerau a roddir i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Chwnstabliaid Arbennig, o ran gweithredu gorfodaeth, ac i wahodd y Prif Gwnstabl i gyfarfod yn y dyfodol i drafod ei weledigaeth a'i flaenoriaethau ar gyfer gogledd Cymru.*

Ar y pwynt hwn (10.50 am) cymerodd y cyfarfod egwyl am luniaeth.

## 6 POLISI DRAFFT CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg yr adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) a ddiweddarodd aelodau ar y cynnydd hyd yn hyn gyda'r adolygiad o Bolisi Cludiant

o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor.  Roedd copi o'r drafft diwygiedig diweddaraf o'r polisi yn amgaeedig â'r adroddiad er ystyriaeth a sylwadau aelodau.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod mwyafrif o'r cyngor cyfreithiol wedi'i geisio ar bob agwedd ar y polisi wedi dod i law, a bod y fersiwn a gyflwynwyd iddynt wedi'i newid yn unol â'r cyngor hwnnw.  Tynnodd y Rheolwr Adnoddau a Chefnogaeth Addysg sylw at y prif newidiadau yn y polisi drafft, fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn, sef -

- roedd perthnasau 'ysgol fwydo'n' cael eu cydnabod yn y polisi drafft newydd. Roedd y polisi cyfredol ond yn cydnabod yr ysgol addas agosaf, a gallai'r ffactor hwn gael effaith niweidiol ar blant yn gallu aros gyda'i gilydd wrth bontio i'r ysgol uwchradd.  Byddai ceisiadau ar gyfer cludiant ysgol uwchradd o dan y polisi newydd arfaethedig newydd felly'n cael eu hasesu ar gyfer yr ysgol addas agosaf neu a oeddent wedi mynd i 'ysgol fwydo gynradd ddynodedig'.  Bydd cludiant ar sail ysgol fwydo'n cael ei roi fel trefniant dewisol.
- byddai'r canllaw mewn perthynas â mannau casglu a llwybrau peryglus yn cael eu hymgorffori yn y polisi newydd i helpu tryloywder ac eglurder
- eglurder ar ddarpariaeth teithio dewisol
- amserlen estynedig ar gyfer y broses apelio i sicrhau fod yr holl elfennau'n ymwneud ag apêl wedi'u hymchwilio'n iawn, a
- nifer o newidiadau mân eraill drwy gydol y ddogfen ar gyfer dibenion cryfhau neu egluro.

Mewn ymateb i gwestiynau aelodau, dyma swyddogion yn -

- rhoi gwybod i'r Pwyllgor bod y polisi diwygiedig wedi'i ddrafftio o ran gofynion y ddeddfwriaeth ddiweddar, h.y. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
- fe wnaethant gadarnhau, ar gyfer disgyblion yn ne'r sir sy'n mynd i ysgolion ffyrdd, neu a oedd yn dymuno cael mynediad at addysg uwchradd yn seiliedig ar ffydd, dylai eu hysgol agosaf yn seiliedig ar ffydd fod yn Wrecsam.  Ni fyddai disgwyl iddynt deithio i'r Rhyl
- rhoddwyd gwybod y byddant yn edrych yn fuan ar wella cysylltiadau cludiant ar draws ffiniau'r sir, gyda'r bwriad o archwilio a allai disgyblion Sir Ddinbych ddefnyddio'r cludiant a gomisiynwyd gan awdurdodau eraill i gludo eu disgyblion i ysgolion Sir Ddinbych, ac i'r gwrthwyneb, i weld a allai disgyblion o siroedd eraill deithio ar gludiant a gomisiynir gan Sir Ddinbych i ysgolion y tu allan i'r sir
- rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai darpariaethau'r polisi mewn perthynas â mannau casglu dynodedig a llwybrau peryglus, angen cael eu cymhwyso mewn dull teg a chyfiawn, gan roi ystyriaeth ddyledus i'r holl ystyriaethau a gyflwynir
- unwaith y cafodd y polisi diwygiedig ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghori, byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i hyrwyddo'r ymgynghoriad drwy'r cyfryngau, ysgolion ac unrhyw ddulliau addas eraill, gyda'r bwriad o ddenu'r ymgysylltiad budd-ddeiliaid mwyaf gyda'r broses
- roedd y Gwasanaeth Addysg yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Priffyrdd ac Amgylcheddol mewn perthynas â monitro a allai llwybrau ysgol ddod yn arbennig o beryglus yn ystod y tymor tyfu, yn enwedig y llwybrau hynny yn ne'r

sir a oedd yn destun torri ochr ffordd bioamrywiaeth. Byddai diogelwch y disgyblion yn hollbwysig

- cadarnhawyd bod yr amserlen ar gyfer cymeradwyo a gweithredu'r polisi newydd wedi'i nodi ym mharagraff 4.5.1 o'r adroddiad. Fodd bynnag, lle bo modd, byddai Cefnogaeth Addysg yn cymhwyso'r un egwyddorion i geisiadau cludiant ysgol a ddaw i law yn y cyfamser
- cynghorwyd bod angen diffiniad clir o'r term 'cludiant dewisol' fel rhan o'r ymgynghoriad ar y polisi, gan gynnwys gwybodaeth am hyd dyfarniadau cludiant dewisol
- cadarnhaodd nad oedd modd cyfrifo cost wirioneddol y polisi hyd nes oedd y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben, a bod y polisi newydd wedi cael cymeradwyaeth derfynol. Fe allai'r gost wirioneddol fod yn uwch na'r un y cyllidebwyd ar ei chyfer yn wreiddiol. Er hynny, unwaith y byddai'r polisi newydd yn cael ei weithredu, byddai hyn yn digwydd yn gyson ac felly'n deg i bob disgybl. Byddai'n cadw disgyblion yn ddiogel ac nid yn mynd yn groes i unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol. Unwaith y byddai'r polisi'n cael cymeradwyaeth, byddai angen darparu ar ei gyfer o fewn cyllideb y Gwasanaeth, gan gynnwys ffyrdd posibl o ddiogelu'r llwybrau mwyaf cost effeithiol i sicrhau y byddai'r polisi'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Roedd Aelodau'n cydnabod bod y drafft diweddaraf o'r polisi'n llawer gwell, yn llawer mwy eglur ac yn llawer mwy hyblyg na'r gwreiddiol. Roedd yn cydnabod ac yn diogelu'r cysylltiadau arbennig a oedd wedi'u magu rhwng ysgolion uwchradd a'u 'hysgolion cynradd sy'n bwydo' ac yn ymgorffori proses apeliadau annibynnol a theg i rieni a gwarcheidwaid.

Wrth grynhoi ar ddiwedd y drafodaeth, pwysleisiodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi ystyried y pwnc manwl hwn sawl gwaith ers gwneud y penderfyniad i gymhwyso'r polisi'n gadarn. Er bod nifer o wrthwynebiad i'w weithredu mewn rhai ardaloedd, a nifer o anghysonderau wedi dod i'r amlwg drwy'r broses weithredu, roedd o'r farn bod Archwilio a swyddogion wedi gwrando ar y rhai hynny yr effeithir arnynt ac o ganlyniad, wedi addasu'r polisi i adlewyrchu'r pryderon a godwyd, i sicrhau diogelwch y disgyblion, a diogelu perthnasau da sydd wedi'u meithrin rhwng ysgolion bwydo a'u hysgolion uwchradd dynodedig. Felly -

***PENDERFYNWYD** yn amodol ar y sylwadau uchod -*

*(a) cefnogi'r dull a amlinellwyd yn y polisi drafft newydd;*

*(b) cefnogi symud ymlaen i'r cam ymgynghori, gan gynnal yr Asesiad Effaith Lles cyn hynny, a*

*(c) bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ystod haf 2017, yn manylu ar ganlyniadau a chanfyddiadau'r ymarfer ymgynghori ar y polisi drafft, a bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y llwybrau ysgol wedi'u hail-alinio arfaethedig.*

## 7 YMDDIRIEDOLAETH GWASANAETH AMBIWLANS CYMRU

Cyflwynwyd a chroesawyd cynrychiolwyr Gwasanaethau Ambiwlans Cymru o Ymddiriedolaeth y GIG (WAST), David Scott (Cyfarwyddwr Anweithredol), Sonia Thompson (Pennaeth Gweithrediadau Dros Dro Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) a Claire Bevan (Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Phrofiad Cleifion). Roedd cynrychiolwyr WAST wedi'u gwahodd i ddod i'r cyfarfod i drafod y problemau a'r pwysau y mae'r gwasanaeth yn ei wynebu yn Sir Ddinbych, ac ar draws Cymru, a sut roeddent yn mynd i'r afael â'r pwysau hynny.

Trwy gyflwyniad PowerPoint, dangosodd cynrychiolwyr WAST i aelodau -

- ddata ar nifer y galwadau ac ymholiadau gwefan a dderbyniwyd gan y gwasanaeth y llynedd, a oedd yn dangos cynnydd sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a nifer y teithiau gofal cleifion a gynhaliwyd gan y gwasanaeth a'i rwydwaith gwirfoddolwyr
- data ar nifer y galwadau a ymatebwyd iddynt gan wirfoddolwyr Ymatebwr Cyntaf Cymunedol
- effaith sy'n mynd yn groes i'r graen o ddiwallu amseroedd ymateb ambiwlans - gallu bodloni'r targedau sydd wedi'u gosod, ond nid gwella'r profiad neu'r canlyniadau ar gyfer y claf, ar wahân i'r rhai hynny sy'n ddifrifol sâl
- y mesurau sy'n cael eu gweithredu gyda'r bwriad o wella rheolaeth galwadau ac asesiad cleifion i helpu i anfon ambiwlansys mewn argyfwng yn addas, a cherbydau ymateb eraill, gan gynnwys buddion disgwyliedig y dull hwn i'r claf ac i WAST
- y gwelliannau a wireddwyd hyd yn hyn o fabwysiadu'r Model Clinigol Newydd, gan gynnwys lleihad o 38% yn nifer y Cerbydau Ymateb Cyflym nad oedd angen cyrraedd yr argyfwng yn y pen draw
- gwaith a wnaed gyda'r Gwasanaeth Iechyd a staff yr Heddlu, gyda'r bwriad o leihau nifer y 'galwadau cyson' a'r Gwasanaeth Tân ac Achub mewn perthynas ag atal cwympiadau
- y cynnydd yn nifer y cleifion a oedd wedi'u hasesu'n glinigol gan y Tîm Asesiadau Ffôn Clinigol a oedd wedi golygu nad oeddent angen ambiwlans mewn argyfwng
- y fenter Trawsnewid Gofal yn Agosach at y Cartref ledled Cymru, a oedd wedi arwain at lai o gleifion yn cael eu cludo i ysbyty yng ngogledd Cymru na gweddill Cymru
- y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd a'r cynnig i roi hwb i welliannau o ran rheoli galwadau ar gyfer cymorth, a oedd yn cael eu hystyried i fod yn alwadau nad ydynt yn rhai argyfwng
- y gwaith sy'n mynd rhagddo i geisio gwella amseroedd trosglwyddo o WAST i'r Bwrdd Iechyd, ar hyn o bryd roedd perfformiad yn ardal BIPBC yn erbyn y dangosydd penodol hwn y gwaethaf yn gyson yng Nghymru
- mentrau'n mynd rhagddynt ar draws gogledd Cymru, gyda'r bwriad o hybu gwelliannau. Roedd y rhain yn cynnwys tîm o glinigwyr yng Nghanolfan Reoli'r Heddlu ac yn Ystafell Reoli WAST a allai asesu anghenion claf, a datblygu Llwybrau Gofal Amgen - gan gynnwys Tîm Cymorth Cymunedol mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Tân ac Achub, y Llwybr Nyrsys Ardal, Protocol Uned Mân Anafiadau diwygiedig, ac ym Mawrth 2017, byddai cynllun peilot Llwybr Iechyd Meddwl yn dechrau yn Ysbyty Glan Clwyd

- yn ogystal, byddai Protocol Trosglwyddo Cyflym yn cael ei gyflwyno ledled gogledd Cymru i gefnogi'r gwaith o drosglwyddo cleifion yn brydlon nad oedd angen trafodaeth clinigwr i glinigwr, byddai Gwasanaeth Ymatebwr Cyntaf Cymunedol yn cael ei ehangu i weithio yn ardaloedd gogledd Cymru nad oedd â phresenoldeb Ymatebwr Cyntaf Cymunedau ar hyn o bryd; a byddai gwaith yn parhau gyda defnyddwyr gwasanaeth mynych gyda'r bwriad o gefnogi eu hanghenion, heb iddynt orfod galw ar y gwasanaeth.

Rhoddodd gynrychiolwyr WAST wybod i'r Pwyllgor fod yr adborth cychwynnol gan y cyhoedd a Gweinidogion Llywodraeth Cymru i'r dull Model Clinigol Newydd wedi bod yn ffafriol, roedd morâl staff wedi gwella hefyd.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan aelod o'r cyhoedd a oedd yn bresennol ynghylch sut roedd wedi galw am ambiwlans i ddigwyddiad yn Llangollen, a'r oedi a gafwyd cyn i'r ambiwlans gyrraedd, gan nad oedd ambiwlansys ar gael a oedd yn agos at y dref. Er gwaethaf dyn tân yn agos at y digwyddiad ar y pryd, nid oedd wedi'i alw i fynd i'r digwyddiad i roi cymorth cyntaf. Rhoddodd gynrychiolwyr WAST wybod eu bod yn pryderu wrth ddysgu am brofiad y gŵr, ac fe wnaethant ei holi a allai drafod y mater gyda nhw ar ôl y cyfarfod, fel y gallent ei ymchwilio ar ei ran. Rhoddodd aelodau o'r Pwyllgor esiamplau hefyd o oedi gydag ymatebion i alwadau brys y tynnwyd eu sylw atynt. Fe anogodd cynrychiolwyr WAST i gynghorwyr anfon unrhyw bryderon o'r fath yn eu blaen atynt, oherwydd roedd ymchwilio i gwynion yn ffordd effeithiol o wella gwasanaethau.

Dyma ymateb cynrychiolwyr WAST i gwestiynau'r aelodau -

- fe wnaethant roi gwybod fod y Bwrdd Iechyd wedi comisiynu WAST i ddarparu gwasanaeth ambiwlans.
- fe wnaethant gadarnhau eu bod yn edrych ar feysydd o botensial lle gallent weithio ar y cyd gyda gwasanaethau brys eraill a chyrff cyhoeddus ar draws Cymru, i ddarparu ymatebion neu wasanaethau cydlynol, yn ogystal â gwasanaethau atal. Roedd rhan o'r gwaith archwiliadol hwn yn cynnwys edrych ar y potensial o gyd-leoli timau WAST, gan gynnwys staff Ystafell Reoli, gyda gwasanaethau brys eraill. Nid oedd modd bwrw ymlaen â chynlluniau cyd-leoli posibl hyd yn hyn oherwydd cyfyngiadau capasiti eiddo.
- rhoddwyd gwybod fod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn, gyda'r bwriad o ddiogelu dull cydlynol gan yr holl asiantaethau gyda materion iechyd a lles, gan gynnwys ymateb i alwadau mewn argyfwng
- fe wnaethant dawelu meddwl y Pwyllgor y byddai unrhyw oedi wrth ymateb i gais brys yn annerbyniol, gan bwysleisio y byddai ymdrech cydunol yn ofynnol ar draws pob gwasanaeth gofal iechyd ac asiantaethau allanol, i gefnogi pobl yn y cartref lle bo'n bosibl
- rhoddwyd gwybod, gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, mae angen ehangu meysydd, fel gwaith atal codymau. Yn aml y dyddiau hyn, roedd y cleifion a gludwyd i'r ysbyty gan y Gwasanaeth Ambiwlans ag amrediad o anghenion cymhleth
- fe wnaethant gadarnhau, oes nad oedd modd i glaf gael ei drosglwyddo i ofal nyrsys ysbytai'n syth ar ôl cyrraedd ysbyty, byddent yn mynd at y claf yn yr ambiwlans. Bryd hynny, byddai'r claf yn dod yn gyfrifoldeb ar y cyd i'r ysbyty a'r Gwasanaeth Ambiwlans

- rhoddwyd gwybod i'r pwyllgor fod gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar fodelu am alw a chapasiti ysbytai cymunedol wedi'i ragamcanu ar gyfer y pum mlynedd nesaf
- rhoddwyd gwybod fod system Anfon drwy Gymorth Cyfrifiadur (CAD) i fod i'w chyflwyno yn ystod haf 2017. Byddai'r system hon, yn seiliedig ar system a gydnabyddir yn rhyngwladol, yn helpu brysbennu galwadau brys, i benderfynu ar yr ymateb mwyaf addas iddynt
- fe wnaethant esbonio'r broses ar gyfer delio ag ymholiadau ar gyfer cludo teithwyr i apwyntiadau ysbyty wedi'u trefnu
- cadarnhawyd nad oedd WAST yn dosbarthu galwyr cyson fel 'galwyr niwsans' oherwydd roeddent yn amlwg angen cymorth. Roedd WAST wedi gweithio'n agos gyda gwasanaethau brys eraill i geisio codi ymwybyddiaeth o'r effaith roedd galwadau o'r fath yn ei chael ar y gwasanaethau brys ac ar breswylwyr eraill a oedd wir mewn angen o'r gwasanaethau brys. Byddai ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth mewn perthynas â hyn yn parhau i gael eu cynnal yn rheolaidd
- cytunwyd gydag aelodau a swyddogion y cyngor bod unigrwydd yn broblem guddiedig, ond cynyddol, yn y boblogaeth. Roedd yn un o'r achosion pam bod rhai unigolion yn galw'r gwasanaethau brys yn gyson am gymorth nad oedd yn argyfwng. Rhagwelwyd y byddai'r system brysbennu a gyflwynwyd yn y Tîm Asesu Clinigol a'r gwasanaethau'n a fyddai'n cael eu cyflawni gan y Tîm Cymorth Cymunedol, tîm yn cynnwys staff y Gwasanaeth Tân, yr Heddlu ac Un Pwynt Mynediad, a oedd yn cael ei beilota ar hyn o bryd yn Sir Ddinbych, yn helpu i leihau pwysau ar WAST gan y byddai'r timau hyn yn gallu cyfarwyddo'r galwyr i'r gwasanaethau mwyaf addas i'w hanghenion. Er nad oedd gan unrhyw awdurdod neu sefydliad ddyletswydd statudol i fynd i'r afael ag unigrwydd, roedd y broblem yn effeithio ar wasanaethau rheng flaen
- cadarnhawyd bod yr Ambiwlans Awyr yn elusen annibynnol. Roedd Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru'n wahanol i'w gymheiriaid mewn rhannau eraill o'r DU, gan fod ganddo ystod o glinigwyr cymwys iawn gydag ef y gellid galw arnyn nhw yn ôl y gofyn. Byddai angen gwneud penderfyniad ynghylch galw ar wasanaethau'r Ambiwlans Awyr, yn seiliedig ar angen y claf.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr WAST am fod yn bresennol ac am ateb cwestiynau'r aelodau. Diolchodd hefyd i'r aelod o'r cyhoedd am ddod i'r cyfarfod a rhannu ei brofiadau am y Gwasanaeth Ambiwlans. Fe wnaeth y Cadeirydd ac aelodau bwysleisio'r pwysigrwydd i gynrychiolwyr WAST am gyfathrebiad rheolaidd rhwng y Gwasanaeth Ambiwlans a'r rhai oedd wedi galw am gymorth, er mwyn tawelu meddwl y claf fod cymorth priodol ar ei ffordd iddynt. Ar ddiwedd y drafodaeth -

***PENDERFYNWYD –****yn amodol ar y sylwadau uchod, i gael y cyflwyniad a rhoi gwahoddiad i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ddod i gyfarfod arall ar adeg briodol yn y dyfodol.*

## 8 AROLWG PRESWYLWYR CYNGOR SIR DDINBYCH 2017

Cyflwynodd y Pennaeth Gwella a Moderneiddio Busnes yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol), a amlinellodd y broses arfaethedig i gynnal Arolwg Preswylwyr 2017 yn Sir Ddinbych.

Yn ei gyflwyniad, fe amlinellodd y Pennaeth Gwasanaeth bwysigrwydd yr ymarfer Arolwg Preswylwyr fel ffordd o fesur bodlonrwydd dinasyddion gyda gwasanaethau'r Cyngor, ac i geisio cael eu barn ar y gwasanaethau yr hoffent eu cael yn y dyfodol. Amlinellodd gynigion y Cyngor ar gyfer cynyddu ymgysylltiad preswylwyr gyda'r broses arolwg, ar gyfer yr arolwg sydd i ddod, a dywedodd pe gellid diogelu rhwng 2000 a 3000 o ymatebwyr, byddai'r awdurdod yn ystyried hynny'n gyfradd ymateb addas. Byddai ymatebion yr arolwg yn cael eu dadansoddi ochr yn ochr ag ymgynghoriad y Cynllun Corfforaethol, a byddai'r dadansoddiad yn cyfrannu at gynllunio strategol newydd y Cyngor ar gyfer y dyfodol.

Gyda'r bwriad o wneud y gorau o ymgysylltiad preswylwyr gyda'r broses, gofynnodd aelodau i swyddogion holi a oedd modd cynnig cymhelliant i breswylwyr lenwi'r arolwg, h.y. aelodaeth hamdden 12 mis am ddim i un/dau o bobl. Roedd y Pwyllgor yn awyddus fod aelodau gyda chyfle i roi sylw ar yr arolwg drafft cyn ei roi i breswylwyr, felly -

***PENDERFYNWYD –***

*(a) yn amodol ar y sylwadau uchod ac ymholiadau'n cael eu gwneud i sefydlu a oedd cymhelliant ar ffurf gwobr yn gallu cael ei roi i un ymatebwr am lenwi'r arolwg, bod y trefniadau newydd arfaethedig am gynnal yr Arolwg Preswylwyr yn cael eu cefnogi, a*

*(b) bod yr Arolwg Preswylwyr drafft yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio am sylwadau cyn ei gyhoeddi.*

## 9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Archwilio adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor a rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol -

- nodwyd bod swyddogion Nat West wedi gwrthod gwahoddiad y Pwyllgor i ddod i'w gyfarfod ym Mawrth i drafod y rhesymeg dros gau canghennau yn y sir, a chynigion yn y dyfodol i ddarparu cyfleusterau bancio, ond wedi cynnig cyfarfod gyda swyddogion neu aelodau yn unigol. Mynegodd yr Aelodau bryder nad oedd swyddogion Nat West wedi bod yn fodlon ymgysylltu a thrafod materion mewn fforwm cyhoeddus, gyda'r bwriad o weithio gyda'r Cyngor er budd cwsmeriaid a darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Cytunwyd bod datganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi'n tynnu sylw at siom a llesteiriant y Pwyllgor yn y cyswllt hwn. Gofynnodd y Cynghorydd Cheryl Williams fod dulliau amgen o ddarparu'r gwasanaethau bancio hynny i gymunedau lleol yn cael eu harchwilio, gan gynnwys defnyddio siopau un stop. Rhoddodd y Cadeirydd wybod fod Swyddfa Bost Rhuthun yn darparu rhai cyfleusterau
- cytunodd Aelodau i wahodd yr Aelodau Cabinet Arweiniol perthnasol i ddod i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar gyfer eitemau'n ymwneud â Chefnogi Annibyniaeth

yn Sir Ddinbych; Adolygu Darpariaeth Ysgol Gynradd yn ardal Rhuthun, a Rheoli Dŵr (ardal Glasdir, Rhuthun), a

- fe wnaeth y Pwyllgor hefyd ailadrodd eu penderfyniad i dderbyn adroddiad yn ôl ar Bolisi Cludiant o’r Cartref i’r Ysgol Sir Ddinbych, yn dilyn proses ymgynghori, i gynnwys adolygu llwybrau cludiant ysgol hefyd, a mannau casglu.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo’r Rhaglen Waith fel y caiff ei manylu yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

## 10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Rhoddodd y Cynghorydd Martyn Holland wybod fod y Grŵp Cydraddoldeb yn adolygu’r ffordd roedd yn gweithredu yn y sir yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chofnodi’r adroddiad ar lafar.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55pm.